OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 1396 (Cy.110)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Trefniadau Asesu y Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2005

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *24 Mai 2005* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Gorffennaf 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 214 o Ddeddf Addysg 2002(**1**) a thrwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 408, 563 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**2**) ac a freiniwyd bellach yn y Cynulliad Cenedlaethol(**3**), ac ar ôl ymgynghori â'r personau hynny yr oedd ymgynghori â hwy yn ymddangos i'r Cynulliad Cenedlaethol ei fod yn ddymunol yn unol ag adran 408(5) o Ddeddf Addysg 1996:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trefniadau Asesu y Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 1 Gorffennaf 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb Heb Ganiatâd) (Cymru) 1999**

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb Heb Ganiatâd) (Cymru) 1999(**4**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(1) —

(a) ym mharagraff (b) o'r diffiniad o "to achieve the core subject indicator" yn lle'r geiriau "NC tests" rhodder "teacher assessments";

(b) yn y diffiniad o "level 5" yn lle'r geiriau "NC tests" rhodder "teacher assessments"; a

(c) hepgorer y diffiniad "NC tests".

(**1**) 2002 p.32. I gael ystyr "regulations" *gweler* adran 212(1).
(**2**) 1996 p.56. Diwygiwyd adran 408 gan Ddeddf Addysg 1997 (p.44), Atodlen 7, paragraff 30, Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31), Atodlen 30, paragraffau 57 a 106, Deddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21), Atodlen 9, paragraff 57 a Deddf Addysg 2002 (p.32), Atodlen 21, paragraff 46. I gael ystyr "prescribed" a "regulations" *gweler* adran 579.
(**3**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672, ac adran 211 o Ddeddf Addysg 2002.
(**4**) O.S. 1999/1811 fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2004/2914 (Cy.253).

(3) Yn rheoliad 5 —

(a) ym mharagraff (2) yn lle "NC tests" rhodder y geiriau "teacher assessments" ac yn lle "tests are administered" rhodder y geiriau "assessments are carried out"; ac

(b) ym mharagraff (3), ym mhob un o is-baragraffau (a), (b) ac (c) yn lle "NC tests to be administered" rhodder y geiriau "teacher assessments to be carried out".

(4) Yn rheoliad 9(3)(b)(i) yn lle "NC tests" rhodder "teacher assessments".

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999**

**3.**—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 1999(**5**) fel a ganlyn —

(a) yn rheoliad 3(1) hepgorer y diffiniad o "NC tests" a "NC tasks"; ac

(b) yn Atodlen 3 hepgorer paragraff 20(6).

(2) Nid yw'r diwygiad a wnaed gan baragraff (1)(b) i'w gymhwyso i wybodaeth y mae'n ofynnol ei chyhoeddi yn ystod blwyddyn cyhoeddi'r ysgol 2005-06 ynglŷn â blwyddyn adrodd yr ysgol 2004-05.

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) 2004**

**4.**—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) 2004(**6**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) —

(a) hepgorer y diffiniadau o "asiantaeth farcio allanol" a "profion Cwricwlwm Cenedlaethol" a "thasgau Cwricwlwm Cenedlaethol"; ac

(b) yn y diffiniad o "pynciau perthnasol" hepgorer paragraffau (b) ac (c).

(3) Yn rheoliad 2(4) hepgorer y geiriau "unrhyw gyrhaeddiad gan ddisgybl y penderfynir arno gan brawf Cwricwlwm Cenedlaethol neu dasg Cwricwlwm Cenedlaethol yn ystod blwyddyn ysgol flaenorol neu" a "cyrhaeddiad o'r fath neu" ac yn lle "roi" rhodder "rhoi".

(4) Hepgorer rheoliad 11.

(5) Yn Atodlen 3 hepgorer paragraffau 4 a 5 a'r penawdau i'r paragraffau hynny.

**Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004**

**5.**—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004(**7**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) —

(a) hepgorer y diffiniadau o "asiantaeth farcio allanol" a "profion Cwricwlwm Cenedlaethol" a "thasgau Cwricwlwm Cenedlaethol"; a

(b) yn y diffiniad o "pynciau perthnasol" hepgorer paragraffau (b) ac (c).

(3) Yn rheoliad 7 hepgorer paragraffau (10)(b), (11), (12) a (13).

(4) Yn Atodlen 2 —

(a) yn lle paragraff 1(1) rhodder y canlynol —

"(1) Canlyniadau asesiad athrawon o lefel cyrhaeddiad disgybl mewn pwnc ym mhob un o'r pynciau perthnasol, a chanlyniadau asesiad athrawon o lefel cyrhaeddiad y

(**5**) O.S. 1999/1812 fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2001/111, 2001/3710, 2002/1400 a 2004/2914 (Cy. 253).
(**6**) O.S. 2004/1025 (Cy.122), fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2004/2914 (Cy. 253).
(**7**) O.S. 2004/1026 (Cy.123), fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2004/2914 (Cy. 253).